

MC

MATERION CASNEWYDD

Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

DANGOSWCH EICH CEFNOGAETH I DDIGWYDDIADAU YN Y DDINAS



Bydd digwyddiadau o'r radd flaenaf yn cael eu cynnal yng Nghasnewydd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf sy'n helpu i godi proffil y ddinas.

Yn dilyn Hanner Marathon Admiral Dinas Casnewydd a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn ac sy'n parhau i fynd o nerth i nerth, yn y rhifyn hwn o Newport Matters gallwch gael gwybod am fwy o'r digwyddiadau chwaraeon sydd i ddod.

Ganol mis Ebrill, bydd y ddinas yn croesawu rhai o athletwyr gorau'r wlad wrth i World Series Boxing ddod i Ganol Casnewydd. Bydd y British Lionhearts yn cystadlu yn erbyn y French Roosters – ewch i dudalen 3 i gael y manylion llawn.

Yn ddiweddarach y mis hwn, cynhelir Marathon a 10k ABP Casnewydd Cymru ar strydoedd y ddinas am y tro cyntaf erioed. Bydd cystadleuwyr yn teithio o bob cwr o'r byd i gymryd rhan a cheisio curo eu hamseroedd gorau!

Disgwylir awyrgylch gwych wrth i 10,000 o redwyr a miloedd o gefnogwyr dyrru i'r ddinas. Cynhelir ras filltir i deuluoedd ac adloniant hefyd, felly bydd rhywbeth at ddant pawb. Gweler tudalen 2 am ragor o wybodaeth gan gynnwys mapiau cau ffyrdd.

Hefyd, bydd Velothon Cymru yn dychwelyd ym mis Gorffennaf. Mae nifer o opsiynau newydd wedi gwneud y ras hon yn fwy deniadol i feicwyr o bob gallu a phrofiad. Gweler tudalen 2 i gael y manylion.

CYNIGION UCHELGEISOL AR GYFER ADEILADAU ALLWEDDOL YN Y DDINAS



Mae cynlluniau i adfywio dau adeilad nodedig yng Nghasnewydd wedi cael eu cyhoeddi.

Mae Garrison Barclay Estates, mewn partneriaeth â Chyngor y Ddinas, wedi caffael yr hen swyddfa ddsbarthu yn Mill Street a Thŵr y Siartwyr yng nghanol y ddinas.

Mae hen adeilad y Post Brenhinol yn ddolur llygad amlwg sy'n agos i'r brif reilffordd o Lundain i Dde Cymru.

Ym mis Rhagfyr, cytunodd Cabinet y Cyngor ar fenthyciad o £12 miliwn tuag at ailddatblygu'r adeilad yn

swyddfeydd a safon a gwesty.

Mae Garrison Barclay Estates hefyd wedi caffael prydles hir gan y Cyngor ar gyfer adeilad talaf Casnewydd, sef Tŵr y Siartwyr, er mwyn helpu i sicrhau twf parhaus yng nghanol y ddinas.

Mae'r bloc, sy'n wybebu Commercial Street, hefyd yn cynnwys nifer o unedau manwerthu, gan gynnwys hen siop adrannol BHS – rhan o'r gadwyn genedlaethol a aeth i'r wal yn 2016.

Mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer adfywio'r adeilad,

gan gynnwys gwesty pedair neu bum seren yn y tŵr gyda bwyty ar y llawr uchaf lle y gellir mwynhau golygfeydd panoramig, swyddfa gradd A a siopau newydd yn yr unedau sy'n wag ar hyn o bryd.

Meddai'r Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Mae hyder yng Nghasnewydd yn tyfu. Rydym yn denu mwy o ddiddordeb gan gwmnïau sy'n gallu gweld potensial y ddinas ac sydd am wneud busnes yma.

"Fel Cyngor, rydym am wneud

popeth yn ein gallu i weld y ddinas yn ffynnu ac yn tyfu gan y bydd hyn o fudd i'r bobl sy'n byw yma.

"Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni fod yn feiddgar ac arloesol er mwyn sicrhau nad ydym yn colli'r cyfleoedd hynny a'u bod yn cael eu gwireddu cyn gynted â phosibl."

Meddai Ian Carter, cyfarwyddwr datblygu yn Garrison Barclay Estates:

"Mae Casnewydd yn ddinas â hanes hir a balch sydd wedi cael adfywiad go iawn yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

"Mae rhai prosiectau cyffrous wedi cael eu cwblhau yn y ddinas a'r cyffiniau, ac rydym yn gobeithio y bydd ein prosiectau diweddaraf yn helpu gydag adfywiad parhaus canol y ddinas."

"Credwn fod Casnewydd yn prysur ddod yn gyrchfan unwaith eto. Drwy'r ddau brosiect hyn, rydym yn bwriadu adeiladu ar y syniad hwnnw ac, wrth wneud hynny, edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith cadarnhaol gyda Chyngor Dinas Casnewydd."

Gweler tudalen 4 am fwy o newyddion cyffrous am y ddinas a chymorth y Cyngor i fusnesau.

MAE'R VELOTHON YN DYCHWELYD YR HAF HWN



Mae Velothon Cymru wedi cael ei ailwampio ac mae'n dychwelyd ddydd Sul 8 Gorffennaf 2018.

Gall trigolion ddisgwyl llawer llai o gau ffyrdd eleni, a disgwylir i'r holl ffyrdd o amgylch Casnewydd ailagor erbyn 1 I am.

Bydd trefnwyr y digwyddiad yn ysgrifennu at bawb y bydd hyn yn effeithio amynt ym mis Mai gan roi mapiau ac amseroedd cau ffyrdd manwl. Bydd rhagor o wybodaeth yn rhifyn mis Mai o Materion Casnewydd hefyd.

Yn ogystal â'r cwrs 140km poblogaidd, bydd dau gwrs byrrach ar gael fel bod y digwyddiad yn agored i feicwyr o bob lefel gallu ac uchelgais.

Bydd y cwrs 125km yn osgoi bryn drwg-enwog y Tymbel, tra bo'r cwrs 60km newydd, sef cwrs o bwynt i bwynt sy'n dechrau ym Mrynbuga ac yn gorffen yng Nghaerdydd, yn berffaith i feicwyr dibrofiad sy'n awyddus i brofi cyffro beicio ar ffordd gaeedig am y tro cyntaf.

Gallwch ddsygu mwy neu gymryd rhan yn www.velothon.com/wales

CANRIF ERS Y RHYFEL BYD CYNTAF

Mae grwpiau, unigolion a chlybiau a chymdeithasau lleol ledled Casnewydd yn trefnu digwyddiadau i nodi canrif ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae sgysrsiau, teithiau a gweithdai wedi cael eu trefnu drwy gydol y flwyddyn yng Ngwent er mwyn helpu pobl i ddsygu mwy am y Rhyfel Mawr.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu llunio crynodeb o ddiwyddiadau o'r fath felly os hoffech anfon manylion unrhyw ddiwyddiad sydd wedi'i drefnu yn nes ymlaen eleni, cysylltwch â public.relations@newport.gov.uk

POB LLE WEDI'I WERTHU AR GYFER MARATHON CASNEWYDD!



Ddydd Sul 29 Ebrill, cynhelir Marathon a 10k ABP Casnewydd Cymru am y tro cyntaf gan groesawu mwy na 10,000 o redwyr i'r ddinas, a disgwylir i farathonwyr o wledydd mor bell i ffwrdd â Chanada, Algeria a Japan gymryd rhan.

Rhagwelir y bydd y digwyddiad chwaraeon mawr hwn yn cynhyrchu £1.1 miliwn i'r economi leol, yn arddangos canol y ddinas

wedi'i adfywio ac yn codi hyd at £1 miliwn i achosion da.

Cynhelir y digwyddiad gan Run 4 Wales, sef y tîm sy'n gyfrifol am ddiwyddiadau fel Hanner Marathon Caerdydd a Velothon Cymru, ac mae hyn i gyd yn bosibl diolch i gefnogaeth Associated British Ports, Cyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru.

Bydd y marathon, y ras 10k a'r ras filltir i deuluoedd yn dechrau o 9am ymlaen,



gyda gweithgareddau ac adlonïau yn cael eu cynnal ym mhentref y ras ger Theatr Glan yr Afon.

Er mwyn hwyluso'r ras a diogelwch pawb sy'n cymryd rhan, bydd angen cau ffyrdd ar hyd cwrs y ras. Bydd llythyrau'n cael eu hanfon at drigolion a busnesau ar hyd cwrs y ras yn rhoi'r manylion llawn, ac mae'r manylion hynny hefyd i'w gweld ar y map isod neu ar wefan y marathon.


Mae pob lle ar gyfer y marathon wedi'i werthu, ond gallwch gymryd rhan o hyd drwy gofrestru ar gyfer 10K ABP Casnewydd Cymru neu'r ras filltir i deuluoedd.

Bydd y ras 10K yn ychwanegu elfen gyffrous i'r Marathon ABP Casnewydd Cymru cyntaf, gan roi cyfle i redwyr o bob gallu fod yn rhan o un o'r penwythnosau rhedeg mwyaf yng Nghymru – heb orfod cwblhau pellter heriol y marathon.

A fyddai'n well gennych gymryd rhan mewn ras fwy hwyllog i'r teulu cyfan? Mae'r ras filltir i deuluoedd wedi'i chynllunio ar gyfer rhedwyr o bob oed ac er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl gymryd rhan yn y diwrnod. Nid oes unrhyw bwysau o gwbl i gwblhau'r ras mewn amser anhygoel o gyflym, na rhedeg y pellter cyfan, hyd yn oed. Rydym yn disgwyl gwisgoedd ffansi dyfeisgar, llawer o wenu a hyd yn oed mwy o gymorth gan dorff sy'n llawn cyffro. Bydd y rhedwyr yn cael dŵr, rhywbeth melys i'w fwyta a medal i gydnabod eu cyflawniad ar ôl cwblhau'r ras!

Os nad oes gennych awydd rhedeg, beth am ddo i ymuno â'r miloedd o wylwyr a fydd yn cefnogi'r rhedwyr ar y diwrnod, neu helpu drwy wirfoddoli?

Ceir mwy o wybodaeth yn www.newportwalesmarathon.co.uk



PRYNWCH GYDA HYDER

Ydych chi wedi ymuno â chynllun 'Prynwch gyda Hyder' eto?

Mae'r cynllun cenedlaethol yn agored i fusnesau a chrefftwyr lleol sydd, drwy ymuno, yn gallu dweud wrth eu cwsmeriaid eu bod wedi cael eu fetio a'u cymeradwyo gan yr adran Safonau Masnach er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gyfreithlon, onest a theg.

Mae adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd yn hyrwyddo'r cynllun yn lleol gan gynnig help a chyngor i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno.

Os hoffech gael gwybod am y buddiannau y gallwch eu cael drwy fod yn aelod, gwylwch fideo sy'n esbonio mwy yn www.facebook.com/buywithconfidence

Gall busnesau wneud cais neu gael eu hargymell i ymuno â'r cynllun, ac mae'n rhaid iddynt gwblhau cyfres o wiriadau cefndir sydd wedi'u teilwra.

Nid ar chwarae bach y daw busnesau yn aelodau o'r cynllun – ymhlith gwiriadau eraill, bydd hanes cwynion pob ymgeisydd yn cael ei adolygu a bydd tîm safonau masnach y Cyngor yn ymweld â nhw.

Meddai'r Cyngorydd Ray Truman, Aelod y Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio:

"Mae hon yn ffordd wych o helpu pobl i gael gafael ar gwmnïau dibynadwy a gwneud dewis hyddysg.

"Mae ein tîm Safonau Masnach yn gweithio'n galed iawn i atal ac erlyn masnachwyr anghyfreithlon a bydd yr adnodd ardderchog hwn yn ategu'r gwaith hwn ac yn helpu i ddiogelu'r defnyddiwr.

"Mae hefyd yn beth gwych i fusnesau a chrefftwyr fod yn gysylltiedig ag ef – pa ffordd well o ddenu cwsmeriaid na chyda'r is-bennawd 'Cymeradwywyd gan yr Adran Safonau Masnach'?"

Llongyfarchiadau i ddau aelod lleol o'r cynllun a adnewyddodd eu haelodaeth yn ddiweddar, gan gynnwys Britannia Motor Company a'r cwmni garddio Japonica.

I ddysgu mwy am sut y gallai eich busnes gael ei gymeradwyo gan yr adran Safonau Masnach a sut i wneud cais am aelodaeth, ewch i www.newport.gov.uk/tradingstandards or www.buywithconfidence.gov.uk

COFRESTRWCH AR GYFER GŴYL FWYD A DIOD TINY REBEL CASNEWYDD



Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn trefnu standin yng Ngŵyl Fwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd eleni wneud cais nawr.

Mae'r ffurflenni ar gyfer gwneud cais i gymryd rhan yn y digwyddiad ddydd Sadwrn 6 Hydref i'w cael yn www.newportfoodfestival.co.uk

Ar ôl cwblhau'r manylion, dylid dychwelyd y ffurflenni at Joanne Parcell, Gŵyl Fwyd Casnewydd, Ystafell 203w, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR.

Y dyddiad cau ar gyfer y cylch cyntaf o geisiadau yw 11 Mehefin.

Y llynedd, denodd y digwyddiad,

a noddir gan Tiny Rebel, fwy o bobl nag erioed o'r blaen.

Roedd mwy na 75 o stondinau ar hyd strydoedd y ddinas, yn gwerthu cynnyrch lleol ac yn cynnig amrywiaeth eang o fwy a diod i ymwelwyr.

Roedd yr ŵyl boblogaidd yn cynnwys digonedd o adloniant i bobl o bob oed, gyda chogyddion yn eu harddegau yn profi eu sgiliau yn y gystadleuaeth flynyddol.

Unwaith eto, bydd stondinau'n cael eu gosod ar hyd y Stryd Fawr, yr ardal i gerddwyr ar Heol y Bont a Sgwâr Westgate, ac ym Marchnad Casnewydd a'r cyffiniau. Bydd adloniant stryd crwydrod yn cael ei ddarparu hefyd.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cyngorydd Debbie Wilcox, ei bod yn edrych ymlaen at weld y digwyddiad eleni'n adeiladu ar lwyddiant blynyddoedd blaenorol.

"Hoffwn ddiolch i'n prif noddwyr, Bragdy Tiny Rebel, sydd, fel busnes lleol, yn gwbl ymrwymedig i'r digwyddiad hwn.

"Yr ŵyl fwyd yw un o uchafbwyntiau'r calendr digwyddiadau yng Nghasnewydd ac mae bob amser cael llawer o gefnogaeth gan drigolion ac ymwelwyr.

"Does dim dwywaith y bydd eleni yr un mor llwyddiannus â'r blynyddoedd blaenorol ac, fel dinas, rydym yn edrych ymlaen at groesawu ymwelwyr o bedwar ban byd, a bydd rhywbeth at ddant pawb o bob oed."

Mae bocsiio rhyngwladol o'r radd flaenaf yn dod i Gasnewydd yn y gwanwyn pan fydd y British Lionhearts yn wynebu'r French Fighting Roosters yn y World Series of Boxing (WSB).

Ddydd Sadwrn 14 Ebrill, bydd Canolfan Casnewydd yn croesawu'r athletwyr, gan gynnwys Joe Ward o Iwerddon sydd wedi ennill Pencampwriaeth Ewrop dair gwaith ac wedi ennill medal ym mhencampwriaeth y byd, a Phencampwr Bocsiio Prydain Fawr yn 2016, Cyrus Pattinson.

Mae carfan y British Lionhearts sy'n cystadlu yn WSB yn cynnwys bocswyr o garfan Bocsiio Olympaidd Prydain Fawr ynghyd â nifer o ddetholion tramor, gan gynnwys Ward.

Cystadleuaeth focsiio fyd-eang i dimau yw WSB, ac mae bocswyr amatur mwyaf blaenllaw'r byd yn cymryd rhan ynddi. Mae'n pontio'r bwch rhwng bocsiio Olympaidd a bocsiio proffesiynol, ac mae'r bocswyr yn cystadlu mewn pum rownd tri munud o hyd. Cynhelir gornest WSB dros bum bowt, a'r tîm sy'n ennill tri neu fwy sy'n fuddugol.

Meddai'r bocsiwr pwysau welter, Cyrus Pattinson:

"Rwyf wrth fy modd yn cystadlu yn WSB ac rwyf wir yn edrych ymlaen at gael bocsiio yng Nghasnewydd. Mae digwyddiadau WSB yn debyg iawn i sioe broffesiynol, gyda'r cystadluwyr yn cael eu pwyso ar y diwrnod cynt, yn sefyll wyneb yn wyneb ac yn cerdded i'r ring ar y noson felly mae'n creu awyrgylch ardderchog. Fel aelod o garfan Bocsiio Prydain Fawr, rwyf fel arfer yn cystadlu dramor, felly bydd yn wych gallu bocsiio yn y DU."

Meddai Prif Hyfforddwr y British Lionhearts, Rob McCracken, sef Cyfarwyddwr Perfformio Tîm Bocsiio Prydain Fawr a hyfforddwr pencampwr bocsiio pwysau trwm y byd IBF,

BOCSIO RHYNGWLDOL YN DOD I'R DDINAS



WBA ac IBO, Anthony Joshua:

"Mae WSB yn gystadleuaeth o'r radd flaenaf. Mae'r holl wledydd blaenllaw a'r bocswyr gorau yn cymryd rhan ynddi ac mae sioeau WSB yn cynnwys pum bowt cyfartal o safon uchel.

"Mae Cymru wedi cynhyrchu bocswyr sy'n rhan o garfan Bocsiio Prydain Fawr yn gysylltu felly mae'n wych ein bod yn gallu dod â'r ornest hon i Gasnewydd a rhoi sioe i'r cefnogwyr."

Meddai'r Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas

Casnewydd *"Mae hwn yn argoeli i fod yn ddigwyddiad gwych ac yn gyfle i wylwio athletwyr o'r radd flaenaf yn cystadlu. Gyda chymorth ein partneriaid hamdden Newport Live, bydd pobl leol yn cael cyfle i brofi awyrgylch y World Series of Boxing ar eu stepen drws. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddigwyddiadau proffil uchel rydym yn eu cynnal yng Nghasnewydd – sydd wir yn rhoi'r ddinas ar y map chwaraeon."*

I gael tocynnau a mwy o fanylion am y British Lionhearts, ewch i www.gbboxing.org.uk/world-series-boxing

PONT GLUDO CASNEWYDD



Gallwch fwynhau croesi Pont Gludo Casnewydd wrth i dymor yr ymwelwyr ddechrau.

Mae gwirfoddolwyr yn gobeithio bod ar waith o ddydd Mercher 21 Mawrth ymlaen pan fydd y bont a'r gondola'n cael eu defnyddio unwaith eto ar ôl y gaeaf.

Hefyd, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn rhewi pris tocyn diwrnod i oedolion ar £3 a phris tocyn diwrnod i blant (16 oed ac iau) yw £2 sy'n golygu y gallwch groesi'r bont a gweld yr olygfa odidog o'r ardal gyfagos.

Mae'r tocynnau hyn hefyd yn rhoi mynediad i lwyfan y tŷ modur ac yn eich galluogi i groesi cymaint o weithiau ag y dymunwch ar yr un diwrnod.

Pris tocyn croesi unffordd yw £1 i oedolyn a 50c i blentyn. Pris tocyn croesi dwyffordd yw £1.50 i oedolyn a £1 i blentyn. Caiff plant dwy oed ac iau deithio am ddim.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.newport.gov.uk/transporterbridge

CYMORTH GAN Y CYNGOR I FUSNESAU ANNIBYNNOL YNG NGHASNEWYDD

Mae tîm datblygu economaidd arbenigol Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu cynnig cymorth a chynghor hanfodol i fusnesau newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf ac sydd am ehangu neu adleoli.

Mewn rhai achosion, mae hefyd yn gallu cynnig cymorth ariannol diolch i gynlluniau newydd.

Un o'r cynlluniau hyn yw'r rhaglen grantiau i fusnesau newydd sy'n cael ei gweinyddu ar y cyd gan y Cyngor ac is-gwmni Tata Steel, UK Steel Enterprise.

Mae Paul Tully wedi cael grant o £1500 er mwyn helpu i lansio ei ficrodafarn, The Cellar Door.

"Yr ethos yw bod pethau bach yn brydferth," meddai Paul. "Gallwch ddod i yma a chael diod dawel, sgwrs neu

ddim ond eistedd a darllen. Nid oes teledu nac unrhyw beth arall sy'n tynnu sylw pobl fel y gallech eu cael mewn tafarnau mwy."

Hefyd, cafodd The Cellar Door gymorth gan Business In Focus.

Busnes arall a gafodd grant oedd Hot Yoga Health, sy'n cael ei redeg gan Geoff Latham a'i ferch, Suzie.

Mae hen feddygfa deulu yn Baneswell wedi cael ei hadnewyddu i gynnwys stiwdio, ystafelloedd newid a lle parcio. Mae ystafelloedd triniaeth ar gael hefyd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnig grantiau i fusnesau newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n dymuno ehangu.

Le Pub yw un o'r busnesau hynny sydd wedi cael cymorth i dalu rhent y flwyddyn gyntaf ar ei safle ar y Stryd Fawr.

Mae hon yn fenter budd cymunedol unigryw yng nghanol y ddinas sydd â thafarn a chaffi sy'n gweini bwyd figan, yn arddangos cerddorion lleol talentog ac yn cynnal gweithgareddau celf.

I gael rhagor o wybodaeth am y naill gynllun neu'r llall, ac i gael manylion am sut i gysylltu â'r tîm datblygu economaidd, cysylltwch â business.services@newport.gov.uk



Sam Dabb, y Cyngorydd Jane Mudd a Gary Inight (cadeirydd) yn Le Pub



The Cellar Door

CASNEWYDD YN CHWARAE RHAN GREIDDIOL MEWN

Roedd bron i 300 o gynrychiolwyr yn bresennol ym mhumed Uwchgynhadledd y Ddinas, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celtic Manor ym mis Ionawr.

Amlinellodd y siaradwyr gwadd eu safbwyntiau cadarnhaol ar

ddyfodol Casnewydd, a lansiodd ymgyngoriad ynghylch uwchgynllun canol y ddinas hefyd.

Mae'r uwchgynllun yn nodi strategaeth a blaenoriaethau ar gyfer y camau adfywio nesaf drwy ganolbwyntio ar y tri phrif faes: porth gogleddol, craidd y ddinas a glan yr afon.

Ar ôl i'r ymgyngoriad ddod i ben yn gynharach y mis hwn, bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'r cabinet yn gofyn iddynt gadarnhau'r fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor, gan gynnwys yr arweinydd, y Cyngorydd Debbie Wilcox, yn bresennol yn Uwchgynhadledd Twf Hafren, a

drefnwyd gan Ysgrifennydd Cymru, Alun Cairns, ym mis Ionawr.

Gwnaeth y digwyddiad hwn ddwyn ynghyd tua 350 o wleidyddion trawsbleidiol, arbenigwyr economaidd ac arweinwyr busnes i drafod y posibilrwydd o gael 'Pwerdy'r Gorllewin' rhwng Casnewydd, Caerdydd a Bryste.

Dywedodd y Cyngorydd Wilcox:

"Mae gan Gasnewydd ran allweddol i'w chwarae ym mhartneriaeth Dinasoedd Mawr y Gorllewin a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae mewn lleoliad strategol i elwa ar y cyfleoedd economaidd sy'n cael eu cynnig gan y datblygiadau arwyddocaol hyn."

Arweinydd Y Cyngorydd Debbie Wilcox



SWYDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu penodi aelod annibynnol newydd i'w bwyllgor safonau.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol gan aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor a chynghorau cymuned lleol, monitro cydymffurfiaeth â chod ymddygiad yr aelodau a phennu unrhyw gamau gweithredu priodol.

I fod yn gymwys, rhaid i ymgeiswyr fod yn annibynnol ar y Cyngor, dylent fod yn gyfarwydd â llywodraeth leol a meddu ar ddealltwriaeth ohoni, ni ddylent fod yn weithredol mewn gwleidyddiaeth leol na chenedlaethol, dylent gydnabod a deall egwyddorion safonau moesegol uchel mewn bywyd cyhoeddus, dylent allu dangos y gallu i feddwl yn annibynnol ac agwedd ddiuedd a dylent allu deall a phwyso a mesur tystiolaeth.

Mae'r pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae ffi a ragnodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol yn daladwy.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.newport.gov.uk/jobs. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 26 Mawrth 2018.

AIL-LANSIO RHWDWAITH ECONOMAIDD CASNEWYDD

Mae Simon Gibson, sef un o ffigurau busnes mwyaf blaenllaw Cymru, bellach yn cadeirio Rhwydwaith Economaidd Casnewydd wrth iddo symud i lefel newydd o aeddfedrwydd.

Mae'r rhwydwaith wedi cwrdd yn anffurfiol yn rheolaidd dros y tair blynedd diwethaf, ond mae nifer

o ffactorau sylweddol wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar sy'n golygu bod angen corff economaidd mwy ffurfiol i achub ar gyfleoedd a hyrwyddo budd y ddinas.

Ymhlith y rhain mae partneriaeth a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; y gostyngiad yn hollau Pont Hafren a'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu diddymu; a menter Dinasoedd Mawr y Gorllewin.

Meddai'r Athro Gibson:

"Mae'n bleser gennyf gael fy ngwahodd i gadeirio Rhwydwaith Economaidd Casnewydd ar adeg gyffrous o her a chyfleoedd i'r ddinas. Mae llawer wedi cael

ei gyflawni ers i ni lansio Tasglu ReNewport a nawr yw'r adeg gywir i adfywio'r partneriaethau economaidd yn y ddinas er mwyn ysgogi twf yn y dyfodol."

Meddai'r Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd

"Mae'n hanfodol ein bod yn ffurfio partneriaethau cryf er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd sy'n dod i'r amlwg yn y ddinas a'r cyffiniau."



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

DDADDROSEDDOLI PARCIO

Mae adroddiad ar ddad-droseddoli parcio ledled Casnewydd i gyd wedi cael ei drafod gan gynghorwyr.

Mae'r cynllun wedi bod yn yr arfaeth ers rhai misoedd ar ôl i Heddlu Gwent gyhoeddi y bydd yn camu i ffwrdd o gamau gorfodi yn y pen draw.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd nawr yn wynebu'r her o sicrhau bod deddfwriaeth mewn grym yn dilyn cais i Lywodraeth Cymru i ddechrau'r broses.

Mae tagfeydd, parcio anghyfreithlon ac anystyriol a phwy dylai gymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael â

throseddwyr wedi bod yn destun llawer o drafodaethau yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn gohebiaeth.

Argymhellodd aelodau o Bwyllgor Craffu a Rheoli'r Cyngor y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â chymau i gyflwyno parcio wedi'i ddad-droseddoli/mesurau gorfodi parcio sifil mewn cyfarfod ym mis Rhagfyr y llynedd (2017).

Ar 30 Ionawr eleni, cafodd adroddiad gefnogaeth gan bob plaid a gytunodd yn unfrydol i gefnogi'r argymhellion mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.

Croesawyd penderfyniad y

Cyngor llawn gan y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Wasanaethau Stryd.

"Mae'r Cyngor wedi cael nifer o gwynion gan drigolion sydd wedi cael llond bol ac sy'n galw am gamau gweithredu i atal parcio anystyriol ac anghyfreithlon ledled y ddinas.

"Mae pawb yn bryderus iawn, a hynny'n gywir, am nifer y modurwyr sy'n parcio'n hunanol ble bynnag y dymunant, gan anwybyddu gorchymynion traffig fel llinellau melyn dwbl a llinellau igam-ogam ar groesfannau yn agos at ysgolion.

"Rwyf wedi rhybuddio'n gyhoeddus sawl gwaith bod perygl gwirioneddol y bydd rhywun yn cael ei anafu'n ddifrifol neu hyd yn oed ei ladd am fod modurwyr yn anwybyddu'r rheolau sylfaenol. Croesawaf y ffaith bod y broses i gyflwyno mesurau gorfodi

parcio sifil wedi dechrau bellach," meddai'r Cynghorydd Jeavons.

Mae'r cais i ddechrau'r broses o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo deddfwriaeth yn mynd rhagddo. Yn y cyfamser, mae Heddlu Gwent wedi addo y bydd yn parhau â mesurau gorfodi parcio nes y bydd dyddiad swyddogol ar gyfer dechrau mesurau parcio sifil yn ffurfiol wedi cael ei gyhoeddi.

Er bod Deddf Rheoli Traffig 2004 yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu pŵerau gorfodi parcio sifil, gallai gymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd i weithredu popeth sydd ynghlwm wrth hynny, yn ôl adroddiad i'w Cyngor llawn.



**NWYDDAU FFUG
GWERTH £65,000 YN
CAEL EU HATAFAELU**

Yn dilyn ymchwiliad gan dîm safonau masnach y Cyngor, cafodd gwerthwr dillad ffug ar-lein ei erlyn yn llwyddiannus.

Ymddangosodd Alireza Balmey, a oedd yn masnachu o dan yr enw Yes Clearance, gerbron Llys Ynadon Cwmbryn ar 18 Rhagfyr 2017 a phlhediodd yn euog i droseddau o dan Ddeddf Nodau Masnach 1994.

Yn ddiweddarach, cafodd ddeddfryd o naw wythnos yn y carchar, wedi'i gohirio am 12 mis, a gorchymynnwyd iddo dalu gwerth £2,342 o gostau i'r Cyngor a gordal dioddefwr o £140 a fforffedu'r holl eitemau a atafaelwyd, yr amcangyfrifir eu bod yn werth £65,000.

RHAGLEN UCHELGEISOL I WELLA YSGOLION

Bydd £70m yn cael ei fuddsoddi yn ysgolion Casnewydd diolch i gynnig llwyddiannus am gyllid.

Mae'n bleser gan y Cyngor gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei chefnogaeth mewn egwyddor i gynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau mewn nifer o ysgolion ac y gall gwaith ddechrau nawr ar gamau nesaf y cynllun.

Nod rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yw lleihau nifer yr ysgolion a cholegau sydd mewn cyflwr gwael a sicrhau bod gan Gymru ysgolion a cholegau o'r maint cywir, a hynny yn y lleoliadau cywir.

Dywedodd y Cynghorydd Gail Giles, sef Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau:

"Mae hyn yn newyddion gwych i ysgolion Casnewydd. Nid yn unig y bydd yr arian hwn yn ein galluogi i wneud

gwelliannau y mae eu taer angen, ond bydd hefyd yn ein helpu i sicrhau bod ein hysgolion yn addas i gynnig y profiad addysgol gorau posibl i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol."

Meddai'r Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Rydym wedi nodi ymrwymiad clir i ysgolion ac addysg ac wedi ategu hynny drwy fuddsoddi arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon a chyhoeddi cynigion i barhau â chymorth o'r fath yn y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, mae'r arian sydd ar gael i ni yn gyfyngedig iawn ac mae'r her sy'n ein hwynebu ni ac ysgolion yn parhau i dyfu. Felly, rydym yn croesawu'r cymorth a'r buddsoddiad ariannol hwn gan Lywodraeth Cymru yn fwy byth – bydd yn help mawr i ni gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc yn ein dinas."

O dan y rhaglen, gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cynnig am gyllid i gyflawni gwaith o'r

fath yn eu hardaloedd.

Cyflwynodd Cyngor Casnewydd raglen o welliannau gwerth £70 miliwn gan ragweld y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 50%.

Dewiswyd yr ysgolion a gafodd eu cynnwys yn y cynnig yn unol â nodau strategol y Cyngor a blaenoriaethau'r rhaglen. Cafodd yr ysgolion â blaenoriaeth eu dewis yn seiliedig ar eu cyflwr, nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn yr ardal a ffyrdd o wneud y defnydd gorau o'r asedau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd gwaith ar y cynlluniau manwl, achosion busnes a'r rhaglen waith yn dechrau nawr a bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried ymhellach fel sy'n ofynnol gan y rhaglen gyllido.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau, ewch i www.newport.gov.uk/news



Disgyblion rhwng 9 ac 11 oed o Ysgolion Cynradd Millbrook, Pillgwenlly a Ringland yw'r cyntaf i gymryd rhan mewn prosiect gwirfoddoli rhyngweithiol a llawn hwyl i blant.

Mae'r disgyblion yn gweithio gyda thimau plismona yn y gymdogaeth fel rhan o'r cynllun peilot sydd bellach wedi cael ei ardstio gan Gomisinydd yr Heddlu a Throseddau

a'i gefnogi gan Casnewydd yn Un.

Mae'r swyddogion Heddlu Bach yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol yn agos at eu hysgolion, yn helpu i fynd i'r afael â materion lleol ac yn addysgu eu cyd-ddisgyblion am ddiogelwch cymunedol.

Meddai'r Cynghorydd Gail Giles, Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg a Sgiliau:

"Hoffwn longyfarch y disgyblion a'r ysgolion am fod y cyntaf yng Nghymru i fod yn rhan o'r Heddlu Bach.

"Mae'n amlwg bod y disgyblion yn mwynhau eu cyfrifoldebau, gan ddysgu gan eu mentoriaid yn yr heddlu ac ymgysylltu â'u cymunedau, heb sôn am eu gwisgoedd smart. Dylent fod yn falch iawn ohonynt eu hunain – maent yn glod i'w hysgolion, i'w teuluoedd ac i'r ddinas."



CYLLIDEB Y CYNGOR YN ADDO ARIAN YCHWANEGOL AR GYFER GWASANAETHAU ALLWEDDOL

Er gwaethaf yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r lleihad mewn cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn buddsoddi £10m ychwanegol mewn gwasanaethau allweddol.

Yn dilyn ymgyngoriad helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid, trafododd y Cabinet adborth ar y cynigion arbedion drafft yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, a gwnaeth argymhellion ar gyfer cyllideb 2018/19.

Meddai'r Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweinydd y Cyngor: "Yn syml, mae gennym lai o arian a staff nag erioed ond mae disgwyl i ni ddarparu cannoedd

o wasanaethau i'r ddinas o hyd.

"Drwy gydol y broses hon, ein prif ffocws bob amser yw sut y gallwn ddiogelu gwasanaethau hanfodol a'n trigolion mwyaf agored i niwed, a sicrhau twf ein dinas yn y dyfodol.

"Rwy'n falch ein bod, er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, wedi parhau i reoli ein harian yn effeithiol a thargedu adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn ein manifestio a'r cynllun corfforaethol. Yn benodol, rydym wedi neilltuo mwy o gymorth i ysgolion y ddinas. Yn ogystal â'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i ysgolion newydd a gwneud yr hwb gwerth £1.1m a ddyfarnwyd y

llynedd yn barhaol, mae'r Cabinet hefyd wedi cytuno y bydd £420k yn rhagor yn cael ei ychwanegu at y gyllideb ysgolion.

"Fodd bynnag, nid dyma ddiwedd yr her o bell ffordd – rydym yn llawn ddisgwyl toriadau pellach y flwyddyn nesaf – ond ni ddylem anghofio'r hyn sydd eisoes wedi cael ei gyflawni. Yn benodol, rydym wedi buddsoddi mwy na £30m mewn gwasanaethau rheng flaen yn ystod y pedair blynedd diwethaf, yn ychwanegol at chwyddiant; a nawr rydym wedi cynnig cyllideb ar gyfer 2018/19 sy'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol o

£10m mewn gwasanaethau allweddol."

Gwnaeth y Cabinet hefyd argymhellion cynnydd o 4.8% yn y dreth gyngor, sy'n gyfwerth â £48.42 y flwyddyn neu 94c yr wythnos yn ychwanegol ar eiddo Band D. Hyd yn oed gyda'r cynnydd hwn, disgwylir y bydd gan Gasnewydd un o'r cyfraddau treth gyngor isaf yng Nghymru.

Wedyn, cafodd y gyllideb, gan gynnwys y cynnydd yn y dreth gyngor, ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ddiwedd mis Chwefror.

Mae'r papurau o'r cyfarfodydd ar gael yn www.newport.gov.uk

DEALL Y DRETH GYNGOR

Mae'r dreth gyngor ond yn cyfrannu tua 14 y cant o gostau'r cyngor tuag at dreuliau darparu gwasanaethau fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol, casglu gwastraff a chynnal a chadw parciau.

Gellir ei thalu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ddebyd uniongyrchol ac ar-lein, a gall rhai pobl wneud cais am ostyngiadau neu eithriadau.

Er enghraifft, gellir cael gostyngiad ar y dreth bydd rhywun (oedolyn neu blentyn) sy'n anabl yn barhaol yn byw

mewn annedd sydd â nodweddion penodol y byddai'n amhosibl neu'n anodd dros ben i'r unigolyn hwnnw fyw yn ei gartref hebddynt.

Mae gostyngiad hefyd ar gael i bobl y gellir eu "diystyru" o ran y dreth gyngor, a gall hyn gynnwys nyrsys dan hyfforddiant, myfyrwyr mewn addysg amser llawn a phobl sy'n byw mewn cartref gofal.

Hefyd, gellir rhoi gostyngiad i bobl â nam meddyliol difrifol, gan gynnwys problemau iechyd meddwl neu ddemtia.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Tax-Benefits/Discounts--exemptions/Disabilities-reduction.aspx> neu ffoniwch **01633 656656**.

Recrwtio Aelodau ar gyfer Paneli Apeliadau Addysgol Deddf Fframwaith Safonau Ysgolion 1998

Mae'n ofynnol i Gyngor Dinas Casnewydd sefydlu paneli apeliadau addysgol i wrando apeliadau mewn perthynas â derbyn a gwahardd disgyblion. Rydym yn chwilio am aelodau llewg ac aelodau profiadol i fod yn aelodau o'r paneli hyn.

Er mwyn cael eich ystyried fel aelod llewg, ni ddylai fod gennych unrhyw brofiad personol o reoli unrhyw ysgol na darparu addysg mewn unrhyw ysgol (ar wahân i brofiad fel Llywodraethwr neu mewn unrhyw rôl wirfoddol arall).

I fod yn aelod profiadol o banel, bydd angen i chi feddu ar brofiad o fyd addysg, bod yn gyfarwydd ag amodau addysgol yng Nghasnewydd, neu fod yn rhiant i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol.

Mae gan aelodau panel hawl i gael lwfans colled ariannol i'w digolledu am unrhyw enillion a gollir o ganlyniad i fynychu cyfarfodydd panel a gallant hawlio ad-daliad o gostau teithio a chynhaliaeth. Bydd yr unigolion hynny a benodir i fod yn aelodau o'r paneli yn cael hyfforddiant ar hyn.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i www.newport.gov.uk/jobs

Dyddiad Cau: 16 Ebrill 2018.

Rhif cyfeirnod: Panel Apeliadau Ysgolion



DEWCH YN AELOD O'R CYNGOR IECHYD

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yw llygaid a chlustiau cleifion a'r cyhoedd ledled Gwent.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn sefydlu annibynnol sy'n ymweld ag ysbtyai, clinigau a meddygyfeydd teulu i siarad â chleifion am eu profiad o'r gwasanaeth.

Mae'r Cyngor Iechyd hefyd yn ymgysylltu â chymunedau lleol i gael gwybod beth sy'n bwysig iddynt, ac mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd wrth wraidd newidiadau a wneir i wasanaethau, neu wasanaethau

newydd sy'n cael eu datblygu.

Mae aelodau'r Cyngor yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod llais cleifion a'r cyhoedd yn cael ei gynrychioli. Gwirfoddolwyr sy'n frwdfrydig dros wasanaethau gofal iechyd yw'r aelodau, ond nid oes angen unrhyw hyfforddiant meddygol na chefnidir ym maes gofal iechyd arnynt.

Bydd angen iddynt fod â diddordeb gwirioneddol mewn gwrandao ar eraill, meddu ar sgiliau cymdeithasol cryf a gallu gweithio fel rhan o dîm. Bydd popeth arall y bydd angen iddynt ei wybod yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant i aelodau.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn aelod neu os hoffech gael gwybod rhagor am y rôl, cysylltwch â 01633 838516 neu enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk

DIGWYDDIADAU



Mae llawer o bethau i'w gweld a'u gwneud dros y mis nesaf yng Nghasnewydd, gan gynnwys...

THEATR GLAN YR AFON
01633 656757

www.newportlive.co.uk/riverfront
14 Mawrth

The Wood: drama newydd a ysgrifennwyd i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

16 a 7 Mawrth

Eugene Onegin: Opera Canolbarth Cymru yn perfformio stori rymus a thorcalonius Pushkin.

17 a 7 Mawrth

You've Got Dragons: Stori hyfryd am daith plentyn wrth iddo geisio ymdopi â'i ddreigiau, yn cael ei hadrodd yn arddull unigryw'r cwmni hwn.

20 Ebrill

Terra Firma: Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn perfformio stori pedair rhan gan adrodd hanesion sy'n seiliedig ar y tir rydym yn adeiladu ein cymunedau arno.

AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASNEWYDD
www.newport.gov.uk/heritage
Tan 21 Ebrill

Arddangosfa: arddangosfa gydweithredol rhwng Coleg Gwent ac Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd yn dathlu treftadaeth gyfoethog a gorffennol diwydiannol y ddinas, hyd at ddatblygiad glan yr afon heddiw.

Tan 29 Rhagfyr

Arddangosfa: Baneri Pleidlais i Ferched yn dathlu canmlwyddiant ers i ferched gael yr hawl i bleidleisio.

THEATR DOLMAN
FFORDD Y BRENIN, CASNEWYDD SWYDDFA
DOCYNNAU: 01633 656757
21 – 24 Mawrth

Wind in the Willows: Mae New Venture Players yn cyflwyno'r perfformiad amatur cyntaf o'r sioe gerdd newydd hon, gyda Ratty, Mole, Badger, Mrs Otter a'r hen Mr Toad.

10 – 14 Ebrill

Crown Matrimonial: Mae Newport Players yn cyflwyno drama afaelgar yn canolbwyntio ar yr argyfwng a achoswyd gan Edward VIII yn datgan ei gariad at Wallis Simpson, Americanaes oedd wedi ysgaru.